



PROSIECT
PORFA CYMRU
WELSH PASTURE
PROJECT



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

PROSIECT PORFA CYMRU

Adolygiad 2020

Bu 41 o ffermwyr, cymysgedd o ffermwyr llaeth, biff a defaid o amrywiaeth o fathau o diroedd a systemau ar draws Cymru yn mesur eu porfa yn gyson ers i Brosiect Porfa Cymru gychwyn ym mis Medi. Roedd y ffermwyr llaeth yn mesur y glaswellt yn wythnosol a'r ffermwyr biff a defaid yn mesur bob pythefnos.

Nodau'r prosiect yw:

- Annog aelodau'r prosiect i fesur porfa yn gyson a thrafod y canlyniadau gyda ffermwyr eraill.
- Cofnodi cyfraddau tyfu porfa rhanbarthol a rhannu'r wybodaeth gyda holl aelodau Cyswllt Ffermio.
- Rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gefnogi ffermwyr i wneud penderfyniadau rheoli pori rhagweithiol.
- Deall effaith y tywydd ar gynhyrchu porfa.
- Deall effaith rheolaeth ar gynhyrchu porfa ac ansawdd y borfa.

SUT ROEDD Y PROSIECT YN GWEITHIO

Roedd yn rhaid i bob ffermwr fesur lleiafswm o 30 hectar (ha) o borfa yn ddibynadwy gan ddefnyddio mesurydd plât. Roedd yr holl fesuryddion plât wedi eu cysoni a'u haddasu i ddefnyddio'r un hafaliad:

Cynnwys Sych i bob ha = $125x + 640$
(x =uchder o borfa gywasgedig mewn cynyddrannau 0.5cm)

Roedd y ffermwyr yn sicrhau cysondeb trwy gofnodi lleiafswm o 30 mesuriad i bob cae a dilyn yr un llwybr cerdded ar draws pob cae. Cafodd y canlyniadau eu huwchlwytho i'r meddalwedd rheoli porfa Agrinet. Adolygwyd y data yma yn wythnosol gan y tîm Precision Grazing, oedd yn olrhain unrhyw anghysondebau, cyn trosglwyddo'r data wedi ei gymeradwyo i Cyswllt Ffermio, oedd yn creu'r bwletinau wythnosol. Dewiswyd 16 o ffermwyr hefyd i gymryd samplau o ansawdd y borfa, gan rannu lluniau o'r borfa cyn ac ar ôl samplu.




TROSOLWG O'R FFIGYRAU

Bu 2020 yn flwyddyn heriol i lawer wrth reoli eu pori, gyda'r flwyddyn yn dechrau yn wlyb iawn gan atal troi allan yn gynnar, ac yna'r cyfnod eithriadol o sych ym Mai/Mehefin pan fyddai disgwyl i gyfraddau tyfu'r glaswellt fod ar eu uchaf yn ystod y flwyddyn.

Gan fod Prosiect Porfa Cymru wedi dechrau ym Medi, gwelwyd cyfraddau tyfu uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru, ond, oherwydd y tywydd gwlyb ym mis Hydref roedd yn anodd i lawer o ffermydd ddefnyddio'r borfa yn effeithlon.

Yn gyffredinol, gorffennodd ffermydd y prosiect mewn sefyllfa gref ar ddiwedd Tachwedd gyda ffermwyr llaeth â gorchudd ar gyfartaledd ar eu ffermydd o 2,370kgDM/ha a ffermydd biff a defaid â 2,155kgDM/ha.

Mae'r graff isod yn dangos y cyfraddau tyfu ar gyfartaledd ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru ar gyfer ffermydd llaeth, defaid a biff trwy gydol y prosiect (Medi – Rhagfyr 2020).



Graff 1. Cyfartaledd cyfradd dyfu Cymru (kgDM/ha)

Dyddiad	Cyfraddau Tyfu Cyfartalog Llaeth (kgDM/ha)	Cyfraddau Tyfu Cyfartalog Biff a Defaid (kgDM/ha)
15/09/2020	63	44
30/09/2020	38	35
13/10/2020	37	23
27/10/2020	21	16
10/11/2020	15	11
24/11/2020	15	9

Tabl 1. Cyfartaledd cyfradd dyfu Cymru (kgDM/ha)

ASTUDIAETH ACHOS BÎFF A DEFAID

Ffermwr: Sam Sawday, Hill Farm, Llanigon, Gelli Gandryll

System y fferm: Partneriaeth fferm fynydd, 1,400 o famogiaid dros 3 prif flocc o dir sy'n eiddo iddynt ac ar rent, 500 erw ar dir llai ffafriol ar y Mynydd Du, yn amrywio rhwng 500 a 1,500 troedfedd.

System ar sail porthiant sydd i'r fferm, gan ddefnyddio glaswellt a chnydau porthiant yn unig. Mae'r ddiadell yn cynnwys mamogiaid Romney Seland Newydd a Romtex ac mae'r hyrddod yn cael eu gwerthu dan yr enw High Country Romneys. Maent yn cael eu rhannu yn ddiadell fagu a diadell fasnachol ac yn ŵyna allan ym mis Ebrill.



ASTUDIAETH ACHOS

Math o borfa

“Mae gennym lawer o borfa barhaol, ond rydym yn rhoi gwndwn newydd ar ôl ein cnydau porthiant. Rydym yn symud oddi wrth rygwellt a meillion tuag at fwy o wndwn llysieuol a chynaeafu yn yr haf i gynyddu'r amrywiaeth yn y system.”

Tymor pori 2020

“Y tymor pori hwn oedd yr un mwyaf heriol i ni ei gael oherwydd y gaeaf gwlyb. Y rheswm pam ein bod yn cael problemau o ran y gyllideb borthi yn awr yw oherwydd 12 mis yn ôl. Y broblem oedd bod y rhan fwyaf o'r anifeiliaid ar gnydau porthiant yn y tywydd gwlyb ac roedd y defnydd ohono yn wael gan arwain at brinder bwyd.”

“Dim ond nawr, trwy gael rheolaeth ar fesur a deall a chymharu â data blynyddoedd eraill, y gallwn ni weld hynny. Fe fu'n rhaid i ni orfod gwneud llawer o bori dwbl y gaeaf diwethaf, oedd yn golygu ail bori'r gorchudd yn Ionawr, ac fe wnaeth hynny dynnu gorchudd y fferm i lawr yn wirioneddol ar ddechrau Ebrill. Yna fe gawson ni gyfnod sych. Petai gennym fwy o orchudd, mae'n debyg y byddem wedi cael gwell cyfraddau tyfu yn y glaswellt, ond roedd gennym gyfartaledd o orchudd ar y fferm o 1,600 – 1,700kgDM/ha yng nghanol i ddiwedd Ebrill ac roeddem yn brin iawn o laswellt.”

Sut wnaeth mesur helpu tymor pori 2020?

“Roedd yn ddiddorol iawn mesur mwy nag arfer yn nhymor pori 2020 gan y gallem ni ragweld i ble'r oeddem yn anelu a beth oedd raid i ni ei wneud. Fe wnaeth fireinio'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau oedd yn dda iawn i ni. Fe wnaethom ni benderfyniadau na fydden ni wedi eu gwneud fel arfer. Er enghraifft, symudwyd 200-300 o famogiaid o un fferm i un arall ar sail y mesuriadau gorchudd ar bob bloc i wastatau pethau.”

Profiad o fesur

“Rwyf wedi bod yn mesur gorchudd porfa ers tair blynedd erbyn hyn. Rwy'n mesur trwy'r tymor tyfu ac rwy'n ei weld yn ddefnyddiol iawn i baratoi cyllideb borthiant.”

Byddaf yn defnyddio Agrinet i gofnodi'r data fel arfer i weld lle'r ydym yn sefyll. Nid wyf yn chwarae o gwmpas ormod gydag o. Rwy'n ei ddefnyddio'n bennaf fel rhywbeth gwledol i ddeall lle'r ydym ni arni a gwneud penderfyniad rheoli ar sail hynny.

Oherwydd yr ardal eang yr ydym yn ei thrin, i'w wneud mor ymarferol â phosibl, rwy'n mesur ardal o 100 erw ar tua 1,000 troedfedd ar y fferm sy'n cynrychioli gweddill yr ardal sy'n cael ei ffermio yn dda. Rwyf wedyn yn defnyddio'r data hwnnw i ragweld y cyfraddau tyfu mewn blociau eraill. Rwy'n mesur bob 7-10 diwrnod."

Manteision eraill mesur glaswellt

"Rhagweld ymlaen llaw yw'r dull mwyaf grymus rwy'n ei gael o fesur glaswellt, er enghraifft, rydym yn gallu mesur glaswellt yn yr hydref i greu cyllideb porthiant ar gyfer y gaeaf. Hefyd, er mwyn meddwl pryd yr ydym yn gwneud pethau a lle mae'r cyfraddau tyfu arni. Yna, rydych yn sylweddoli y gallwch chi gael llawer mwy o dyfiant. Nid ydych yn mynd i mewn i'r peth yn ddall.

Rydym yn awr mewn sefyllfa dda i ddal ati i ehangu. Rydym wedi sylweddoli eleni bod y diffyg amrywiaeth ymhlith yr anifeiliaid yn ein system yn ein dal yn ôl. Petai gennym wartheg yn y system, fe allen nhw ddefnyddio porfeydd gwahanol yn well i gyd-fynd â'r system sydd gennym. Mae ar fferm angen amrywiaeth o rywogaethau, ac amrywiaeth o anifeiliaid, i wneud iddi weithio!"

Tymor pori Hill Farm 2020 – Nodwedd Best Paddocks Agrinet


Cyfradd dyfu gyfartalog caeau ar gyfer 2020: 29 kgDM/ha

Cyfartaledd y borfa a dyfyd i bob ha: 5.67 tonnes/ha

Nifer y mesuriadau: 24

Mae'r rhan fwyaf o'r borfa dros y 500 erw o dir yn borfa barhaol, yn amrywio o 500 – 1,500 troedfedd. Ar gyfartaledd, mae'r caeau yn cynhyrchu rhwng 4 a 7 tdm/ha.

Gall nodwedd Best Paddocks Agrinet ddynodi'r caeau sy'n perfformio orau a gwaethaf fel yr esbonnir isod (wrth adolygu tymor pori 2020). Ar fferm Sam, mae mesur wedi ei alluogi i ddynodi FS – 12 a FS – 15 fel y caeau sy'n perfformio waethaf, gan gyfiawnhau camau i wella eu perfformiad.



Graff 2. Nodwedd Best Paddocks Agrinet ar gyfer Hill Farm

ASTUDIAETH ACHOS LLAETH

Ffermwr: Edward Morgan, Carreg-y-Llech, Yr Wyddgrug

System y fferm: Yn Sir y Fflint mae Edward yn rhedeg system o loea mewn bloc yn yr hydref, gan odro 220 o fuchod. Mae'r system yn rhoi pwyslais ar reoli glaswelltir gyda'r llwyfan pori yn cynnwys 48 hectar (ha) wedi ei rannu yn 20 o badogau, ar gyfartaledd o 2ha i bob padog.

Natur y borfa

“Mae'r gwndwn hynaf yn 10 mlwydd oed. Rydym yn anelu at adnewyddu 10% o'r llwyfan pori yn flynyddol. Yr hydref yw'r amser gorau i ni ail-hadu gan ein bod angen y glaswellt yn y gwanwyn gan ein bod yn lloea yn yr hydref.”

Tymor pori 2020

“Ni wnaethom droi'r gwartheg allan hyd wythnos olaf Mawrth ar ôl gaeaf gwlyb. Fe wnaeth hi sychu'n gyflym iawn ar ôl hynny.”

“Eleni oedd y flwyddyn gyntaf i ni beidio â bod ag unrhyw ddefaid ar y llwyfan pori. Fel arfer fe fyddwn yn eu cael am ddwy i dair wythnos ym mis Tachwedd i glirio'r llwyfan pori. Fe wnaethom stopio cymryd y defaid am ein bod am droi'r gwartheg allan ynghynt yn y gwanwyn. Fe wnaeth weithio yn dda iawn eleni, yn llawer gwell na'r disgwyl!”

“Rydym yn cael y fantais wrth loea yn yr hydref o ran y niferoedd yr ydym yn gallu eu troi allan yn y gwanwyn. Fe wnaethom droi 100 o fuchod allan yn gyntaf a mwy wedyn fel yr oeddem yn gallu. Cadwyd popeth oedd yn cynhyrchu dros 28 litr dan do a throir gweddill allan. Dechreuodd y glaswellt dyfu'n gyflym iawn wedyn ac aeth popeth allan. Roeddem yn teimlo ein bod yn rheoli'r glaswellt eleni er ei bod yn heriol ar adegau.”

“Fy mhryder oedd, os nad oedd gennym ddefaid, y byddai gennym lwythi o laswellt a fyddai'n colli ei ansawdd a fydd gwartheg ddim yn ei bori neu ddim yn perfformio fel y byddem yn hoffi iddyn nhw wneud. Ond, am ein bod wedi ei reoli'n dda trwy fesur y glaswellt a chynllunio ymlaen llaw, 'doedd hynny ddim yn wir o gwbl.”

“Fe aeth yn sych yn gyflym iawn ac ychydig iawn o dyfiant gawson ni ym mis Mai. Cadwyd at ddyraniad o 4 erw'r dydd gan roi byrnau crwn ad lib i lenwi'r bwlch am wythnos i leihau'r pwysau ar y llwyfan pori. Mewn sefyllfa debyg yn y gorffennol, fe fyddem wedi cyflymu'r cylchdro a dyrannu ardal fwy a fyddai wedi golygu mwy o ddiffyg o ran porthiant yn nes ymlaen ac wedi costio llawer mwy i ni.”

“Yna, roedd tyfiant y glaswellt ar ei anterth tua diwedd Mehefin, ac roeddwn yn gweld hynny'n anodd ei reoli gan fod y padogau i gyd yn tyfu ar yr un pryd. Fe wnaethom dorri rhai byrnau ac fe wnaeth hyn ein galluogi i reoli'r cyfraddau tyfu uwch.”

Rheolaeth yn yr hydref

“Llynedd fe wnaethom gadw'r buchod sych ym mis Tachwedd ar system sefydlog, ond eleni, fe rannwyd y caeau a'u cadw ar gylchdro i sicrhau eu bod yn clirio'r borfa yn iawn. Rydym wedi gweld llawer gwell ail-dyfiant yn y caeau hynny mewn cymhariaeth â'r llynedd. Y nod erbyn hyn yw gwrthsefyll y demtasiwn i roi defaid i bori arno!”

Agrinet

“Rydym wedi defnyddio Agrinet ers rhai blynyddoedd, ond dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gerdded y fferm bob wythnos yn ddi-feth. Rhoddodd hyn fwy o reolaeth i ni ar ein pori a gwell dealltwriaeth o beth sy'n digwydd.”

“Rwyf wedi gweld mesur ar gyfer Prosiect Porfa Cymru a gweld y cyfraddau tyfu mewn ardaloedd eraill yn ddiddorol iawn. Gan fod fy hwsmon cynorthwyol, Chiara, yn mesur y fferm, nid ydw i'n cerdded o gwmpas o hyd ond rwy'n gallu dehongli Agrinet, fe allwch chi ffermio yn rhithiol!”

“Ar ôl cerdded yn wythnosol, rydym yn cael trafodaeth am y canlyniadau gan holi barn ein gilydd amdany'n nhw, os bydd angen, rydym yn rhedeg ychydig o sefyllfaoedd posibl trwy Agrinet i weld beth yw'r cynllun gorau. Er enghraifft, pa gae yw'r gorau i'w dynnu o'r cylchdro ar gyfer byrnau, ac yna rydym yn gallu gweithredu ar hynny.”

“Trwy fesur rydym hefyd yn deall beth yr ydym wedi ei wneud a sut y mae’n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Os na fyddai hwnnw gennym fe fyddem yn cofio ein bod wedi gwneud byrnau rhywbryd a dyna i gyd!”

“Y cae y gwnaethon ni ei ail-hadu y tro hwn oedd un o’r caeau oedd â’r gyfradd dyfu isaf oedd gennym, ond petaech yn edrych arno heb ei fesur fe fydddech yn meddwl ei fod yn un o’r rhai gorau. Ond trwy fesur, roeddwn yn gwybod mai hwn oedd wedi tyfu lleiaf o laswellt trwy nodwedd Best Paddocks Agrinet.”

“Yn fwy na dim, mae mesur yn gwneud i chi fynd allan a chael golwg.”

“Nid wyf yn meddwl ei bod yn hawdd rheoli pori os ydych am ei wneud yn iawn, ond un peth sy’n wirioneddol helpu yw os yw’r isadeiledd yn ei le gennych. Mae’n gwneud bywyd yn llawer haws ac yn haws cael gwerth glaswellt ffres yn eich system. Efallai ei bod yn hawdd eu troi i’r cae a chau’r giât, ond dydi ei wneud yn iawn ddim.”

“Rwy’n gweld mai un o’r pethau allweddol wrth fesur yw gwybod taldra’r glaswellt cyn pori ac ar ôl pori. Mae’n rhaid i ni bori uchder penodol i fynd o gwmpas y llwyfan ar gyfradd benodol i sicrhau nad oes gennym ormod o laswellt neu rhy ychydig o laswellt.”


Tymor pori Carreg-y-Llech 2020 – Nodwedd Best Paddocks Agrinet

Cyfradd dyfu gyfartalog caeau ar gyfer y flwyddyn: 60 kgDM/ha

Cyfartaledd y borfa a dyfyd i bob ha: 13.66 tonnes/ha

Nifer y mesuriadau: 33

Ar gyfartaledd, mae’r caeau yn cynhyrchu rhwng 12 ac 16tdm/ha.



Graff 3. Nodwedd Best Paddocks Agrinet ar gyfer Carreg-y-Llech

ADOLYGU TYMOR PORI 2020

Wrth i'r tymor pori ddod i ben, mae'n bwysig adolygu sut y mae'r tymor wedi mynd ar eich fferm.

Os ydych wedi bod yn mesur porfa trwy'r flwyddyn ar feddalwedd fel Agrinet, edrychwch ar yr adroddiadau y mae'r feddalwedd yn eu cynhyrchu gan gynnwys padogau gorau, cyfartaledd y gorchudd glaswellt a thyfiant y glaswellt trwy'r flwyddyn.

Trafodwch gydag aelodau eich tîm neu gwnewch nodiadau ar sut y mae'r flwyddyn bori wedi perfformio.

Meddyliwch am bethau fel:

- A oedd gennych ddigon o laswellt yng ngwanwyn 2020?
- Pa gaeau oedd yn dioddef fwyaf oherwydd tywydd sychach neu wlypach?
- Pa gaeau wnaethoch chi fethu eu pori yn glir mewn llai na saith diwrnod?
- Pa gaeau sy'n aildyfu arafaf?
- Ar ba adegau yn y flwyddyn oedd y stoc ddim yn perfformio'n dda?

Pa ymchwil pellach sy'n angenrheidiol?

- Dadansoddi pridd – gweledol a chemegol (prawf pridd)
- Dadansoddi gwndwn – % y rhywogaeth glaswellt a meillion

Pa gamau sy'n angenrheidiol i wella?

- Trefnu calch neu wrtaith ar gyfer y gwanwyn
- Dewis caeau i'w ail-hadu
- Trwsio neu adnewyddu ffensys
- Cynnal a chadw'r isadeiledd – rhaniadau a dŵr